

Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf

Hybu annibyniaeth
Aros yn ddiogel
Gwella Iechyd a Lles

2015-2025

Cynnwys

	Rhagair gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd	Tud 3
1.	Pam mae angen Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin?	
	1.1. Mae Sir Gaerfyrddin yn newid	Tud 4
	1.2. Beth mae'r newidiadau hyn ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn ei olygu mewn termau ariannol?	Tud 5
	1.3. Mae'r gyfraith yn newid	Tud 6
	1.4. Mae angen i ni sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu'r hyn mae pobl ei eisiau a'i angen	Tud 7
2.	Ble ydym ni nawr?	Tud 8
3.	Sut allem ni ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol? Y dewisiadau sydd ar gael	Tud 11
4.	Tri Chynnig i'r Gymuned – ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i hybu annibyniaeth i bobl hŷn	Tud 16
5.	Cynllun Cyflenwi Pum Mlynedd 2015 – 2020	Tud 20

Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn am y Degawd Nesaf

Cyflwyniad gan y Cynghorydd Jane Tremlett
Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd



Mae pobl hŷn yn aelodau pwysig o'r gymdeithas ac mae ganddynt yr hawl i gael urddas yn eu blynyddoedd hŷn. Mae ganddynt sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i'w cyfrannu at y gymdeithas, a bydd y twf a ddisgwylir yng nghyfran y bobl hŷn yn y degawd i ddod a'r tu hwnt yn darparu adnodd gwerthfawr i Sir Gaerfyrddin. Mae gan gyfranogiad parhaus yn y blynyddoedd hŷn fuddion i'r unigolyn dan sylw, cymunedau lleol a'r sir yn gyfan.

Mae llawer o bobl yn aros yn iach ac yn annibynnol ymhell i mewn i'w henoed, ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd pobl hŷn yn y dyfodol hyd yn oed yn fwy egnïol ac annibynnol na rhai'r presennol. Fodd bynnag, wrth i bobl heneiddio, yn raddol maent yn fwy tebygol o fyw gyda chydforbidrwydd cymhleth, anabledd ac eiddilwch.

Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd y gwasanaethau Pobl Hŷn yn dod o dan bwysau cynyddol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd mwy na deng mil o bobl hŷn ychwanegol dros 75 oed yn byw yn y sir, a bydd angen gofal a chymorth ar lawer ohonynt.

Nod y strategaeth hon yw edrych yn fanylach ar yr heriau hyn a nodi cynllun i ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy dros y deng mlynedd nesaf. Caiff y cynllun hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi ymgynghori'n helaeth gyda phreswylwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a phartneriaid, er mwyn sicrhau ein bod wedi ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl hŷn. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn crisialu'r ffordd mae llawer ohonom yn teimlo, wrth i ni edrych ymlaen at ein henoed.

“Cael eich parchu fel person hŷn a pheidio â chael eich gweld fel baich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol”

Mae angen i ni barhau i gydweithio'n frwd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu gofal yn y gymuned ymhellach, i atal derbyn pobl i ysbytai lle bynnag y bo modd, ac i ddarparu i'n preswylwyr y gofal iawn, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn iddynt hwy.

Er bod yr heriau'n fawr, rwy'n credu y bydd y strategaeth hon yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach o lawer i wynebu'r heriau hyn.

1. Pam mae angen Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin?

1.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn newid

Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn cynyddu ac mae pobl yn byw'n hirach. Heddiw, mae 28% o'r boblogaeth oedolion dros 65 oed, ac erbyn 2030 bydd cyfran yr oedolion hŷn yn cynyddu i 34%. Hefyd mae gan Sir Gaerfyrddin fwy o bobl hŷn na chyfartaledd Cymru.



Rhagwelwn y bydd deg mil yn fwy o bobl dros 75 oed, sef 58% yn fwy, a fydd yn golygu y bydd 1 o bob 6 oedolyn yn 75 oed a hŷn erbyn 2030.

Bydd bron pedair mil o'r bobl hyn yn 85 oed a hŷn.


Bydd y boblogaeth gynyddol hŷn hon yn creu heriau wrth ateb y galw am wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

Rhwng nawr a 2030, rhagwelwn y bydd:

- **5000** yn fwy o bobl yn byw gyda salwch cyfyngus hirdymor, sef oddeutu **traean** yn fwy na heddiw.
- **1500** yn fwy o bobl yn byw gyda dementia, sef oddeutu **hanner** yn fwy na heddiw.
- **1350** yn fwy o bobl hŷn fydd angen gwasanaethau yn y gymuned, sef o leiaf **hanner** yn fwy na heddiw.


Daw'r ffigurau hyn o Daffodil Cymru, system a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r system yn dwyn ynghyd mewn un man y wybodaeth ynghylch pa wasanaethau gofal y gallai fod eu hangen yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

1.2 Beth mae'r newidiadau hyn ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn ei olygu mewn termau ariannol?




Gwariasom £37 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn yn 2015. Bydd y gyllideb hon yn gostwng o leiaf £2.2 miliwn, oherwydd bod yr arian mae'r Cyngor yn ei gael gan y llywodraeth ganolog yn gostwng dros y 3 blynedd nesaf. Pan gymerwn i ystyriaeth y galw cynyddol dros y 3 blynedd nesaf, disgwyliwn ddiffyg cyllid o £3.5 miliwn o leiaf erbyn 2018. Mae hyn yn golygu y bydd gennym, ymhen 3 blynedd, o leiaf 10% yn llai o adnoddau i ddiwallu anghenion y bobl hŷn sy'n gymwys i gael gwasanaethau ar hyn o bryd.

Yn y tymor hirach, ar sail y newidiadau yn y boblogaeth y disgwyliwn eu gweld yn Sir Gaerfyrddin, byddai angen i ni wario rhyw £50 miliwn i ymdopi â'r cynnydd disgwylidig yn y galw erbyn 2030, pe baem yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn yr un ffordd. Dyma gynnydd o £13 miliwn o leiaf yn y cyllid ar sail y proffil demograffig yn unig. Mae hyn yn cyfateb yn fras i gynnydd blynyddol mewn cyllid o filiwn y flwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Mewn gwirionedd mae'r gost yn debygol o fod yn llawer uwch wrth i ni ystyried disgwyliadau cynyddol, safonau gofal cynyddol ac effaith gynyddol yr isafswm cyflog/cyflog byw ar gost gwasanaethau. Er enghraifft, amcangyfrifir y gallai effaith cost y cyflog byw ar sail lefelau presennol y galw ychwanegu hyd at £3.6 miliwn y flwyddyn erbyn 2020 i gost darpariaeth cartrefi gofal.



I ddarlunio'r bwch yn y cyllid a ragamcanir dros y 15 mlynedd nesaf, mae'r graff hwn yn dangos maint yr heriau a wynebwn wrth ateb y galw gyda chyllideb sy'n crebachu.

Bydd yn rhaid i ni newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn i ni ddiwallu anghenion mwy o bobl y bydd angen gwasanaethau arnynt, yn y degawd nesaf a'r tu hwnt, gyda'r arian sydd ar gael. Rhaid i unrhyw gynllun i wneud gwasanaethau i bobl hŷn yn fwy cynaliadwy fod yn uchelgeisiol ac yn ysbrydoledig er mwyn wynebu'r heriau sydd o'n blaen. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a fydd ar gael.



1.3 Mae'r gyfraith yn newid

Mae fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru'n dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Bydd angen i'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sicrhau ein bod yn darparu mynediad hawdd i wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i helpu pobl i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain ac i'w helpu i aros mor iach, egniol ac annibynnol ag sy'n bosibl, ac i barhau i ymwneud â'u cymunedau. Gan

Meini prawf

Cymhwysedd

Cenedlaethol

gydweithio'n rhanbarthol, erbyn mis Mawrth 2016, rydym yn bwriadu gwneud y defnydd gorau o atebion technolegol, gan gynnwys technoleg symudol a rhyngwyd, wrth ddatblygu'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor presennol trwy borth gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'n staff.

Bydd yna feini prawf cymhwysedd cenedlaethol newydd fydd â'r nod o seilio penderfyniadau ar yr hyn y mae'n bwysig i'r unigolyn ei gyflawni mewn bywyd ac a oes arno angen gofal a chymorth a reolir i gyflawni hyn. Mae'r ymagwedd hon at gymhwysedd yn cydnabod y bydd ar rai pobl angen i'w gofal a'u cymorth gael eu rheoli a'u cyflenwi iddynt.

Beth mae hyn yn ei olygu i bobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin

O dan y meini prawf newydd, bydd pobl yn gymwys i gael pecyn gofal a chymorth os yw eu hanghenion 'yn gallu a dim ond yn gallu' cael eu diwallu gan ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd yr unigolyn yn cael ei asesu i weld a all ei anghenion gael eu 'diwallu'n ddigonol' gan gymorth a gydgyssylltir ganddo ef, ei deulu neu ei ofalwr, neu gan wasanaethau yn y gymuned. Os nad yw hyn yn wir, bydd yn gymwys i gael pecyn gofal a reolir gan y Cyngor.

Mae'r dull newydd hwn yn ffordd wahanol iawn o benderfynu ar gymhwysedd i gael gwasanaethau. Mae'n anodd rhagweld sut y gallai hyn effeithio ar nifer y bobl fydd yn cael gwasanaethau yn y dyfodol, ond mae'n ffactor a allai effeithio ar gyfanswm cost y ddarpariaeth.

1.4 Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n darparu'r hyn mae pobl ei eisiau a'i angen


Cynaliasom ymgynghoriad cyhoeddus, o 1af Mehefin i 31ain Gorffennaf 2015, i ofyn i bobl Sir Gaerfyrddin am eu barn ar yr hyn fyddai'n bwysig iddynt yn eu henoed, pa fath o gymorth a gweithgareddau yr oeddent yn meddwl y byddai eu hangen arnynt, a beth fyddai ei angen arnynt i'w helpu i aros yn annibynnol.

478 o ymatebion

40%
yn 65 oed

20%
yn anabl

“Wrth I chi heneiddio, beth ydych chi'n meddwl fydd yn bwysig I chi?”




“Aros mor annibynnol
ag y gallwch fod”



“Gallu penderfynu drosoch eich
hun ynghylch gofal a chymorth”



“Gallu aros yn
eich cartref eich
hun cyhyd ag
y gallwch”




“Pan ydych chi'n
sâl neu wedi'ch
anafu, cael cymorth
i fod yn annibynnol
eto yn gyflym”

2. Ble ydym ni nawr?

Mae ychydig mwy na 2500 o bobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin yn cael gofal cymdeithasol trwy'r Cyngor. Mae'r nifer hon wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y 3 blynedd diwethaf, a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau i gynyddu dros y degawd nesaf.

Mae cyfran sylweddol o'r bobl hŷn sy'n cael gofal yn ei ariannu eu hunain.

Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn darparu amrywiaeth fawr o wasanaethau i bobl hŷn, ar dair lefel, yn fras:



Haen 1 – Gwasanaethau Cymunedol, Cyffredinol ac Atal

Mae gwasanaethau Haen 1 yn cyfrif am ryw 7% o'r gyllideb, neu £2.5 miliwn.

Mae yna ystod o wasanaethau cryf a ffyniannus a redir gan y trydydd sector a'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnig sylfaen gref ar gyfer datblygu rhagor o wasanaethau i hybu a chynorthwyo ag annibyniaeth i bobl hŷn.

Nod y gwasanaethau hyn yw:



- Sicrhau bod gwasanaethau ar gael ac yn hygyrch i unrhyw un yn ein cymunedau;
- Rhoi i bobl safon dda o wybodaeth, cyngor a chyfeiriadau at y gwasanaethau mae eu hangen arnynt.
- Hybu annibyniaeth, ymwneud â'r gymuned a chynhwysiant cymdeithasol;
- Hybu iechyd a lles pobl hŷn;
- Adnabod y rheiny sydd ag anawsterau sy'n dod i'r amlwg a sicrhau y cânt gymorth effeithiol yn gyflym, trwy gysylltu â gwasanaethau Haen 2.

Haen 2 – Ymyrraeth Gyfnar, Ailalluogi a Gofal Canolraddol

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol ag yr oeddent gynt, ar ôl salwch neu anaf. Gallant hefyd helpu i atal derbyniad diangen i ysbyty, sy'n arwain at adferiad cyflymach gartref. Nid oes angen cymorth hirdymor mwyach ar ddiwedd eu rhaglen ar oddeutu 45% o'r unigolion sy'n cael gwasanaeth Ailalluogi.

Mae gwasanaethau Haen 2 yn cyfrif am 13% o'r gyllideb, neu £4.8 miliwn.

I unigolion na all cymorth Haen 1 ddiwallu eu hanghenion, nod y gwasanaethau hyn yw:



- Rhoi cyngor a gwybodaeth da fel bod pobl yn cael y gwasanaethau iawn;
- Canolbwyntio ar y rheiny y gellir eu helpu trwy ymyrraeth gyfnar ac ailalluogi;
- Ymateb yn gyflym, mewn modd hyblyg ac mewn ffordd ddigon dwys i gael effaith wirioneddol;
- Gweithio gyda phobl i'w helpu i adeiladu ar eu cryfderau;
- Cydweithio'n agos â gwasanaethau Haen 1, er mwyn sicrhau bod cymorth yn gynhwysfawr ac yn gydgyssylltiedig.

Haen 3 – Gofal Hirdymor ac Arbenigol

O'r £37 miliwn yr ydym yn ei wario ar wasanaethau i bobl hŷn, mae 80% o'r gyllideb neu £29 miliwn yn cael ei wario ar ofal i'r rheiny sydd ag anghenion hirdymor.

Nod y gwasanaethau hyn yw:



- Rhoi cyngor a gwybodaeth da i alluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch eu gofal a chymorth hirdymor;
- Darparu gofal a chymorth personol i ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn;
- Gweithio gyda phobl i'w helpu i adeiladu ar eu cryfderau;
- Cydweithio'n agos â gwasanaethau Haen 1, er mwyn sicrhau, lle bo modd, fod unigolion yn cadw cysylltiadau â'u cymunedau
- Cydweithio'n agos â gwasanaethau Haen 2, ar adegau o afiechyd neu anaf, i helpu pobl i fod mor annibynnol ag yr oeddent gynt.

Gofal Cartref

Mae oddeutu **1030 o bobl** yn cael gofal cartref yn eu cartrefi eu hunain ar unrhyw adeg. Rydym yn comisiynu oddeutu **14,000 o oriau** o ofal bob wythnos ar gost o **£15.3 miliwn** yn 2015. Mae'r ffigur hwn yn is na'r uchafbwynt sef 1220 ym mis Hydref 2014.

Mae oddeutu 75% o ofal cartref yn cael ei brynu oddi wrth y sector annibynnol a'r trydydd sector, ac mae gwasanaeth gofal cartref y Cyngor ei hun yn darparu oddeutu 25% o'r holl oriau.

Ymrwymodd y Cyngor i contract 4 blynedd newydd gyda darparwyr dethol. Mae'r contract newydd yn galluogi'r darparwyr i roi gwell cyflogau a gwell telerau cyflogaeth i'w staff. Dylai hyn ei gwneud yn haws i'r darparwyr recriwtio a chadw gweithwyr gofal medrus, a ddylai yn ei dro alluogi'r darparwyr i ateb y galw am y gwasanaeth a darparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae'r trefniadau monitro hefyd yn fwy trylwyr, er mwyn sicrhau bod y darparwyr yn darparu'r gofal yn unol â'r safon a brynasom.



Cartrefi Gofal

Mae oddeutu **876 o bobl** wedi cael eu lleoli gan y Cyngor mewn cartref gofal. Gwariodd y Cyngor **£13.4 miliwn** ar y gwasanaeth hwn yn 2015.

Fodd bynnag, credir bod oddeutu traean o'r bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi penderfynu ariannu eu lleoliad eu hunain. Mae 1589 o leoedd ar gael mewn cartrefi gofal yn y sir, ac fel arfer mae rhwng 70 a 100 o leoedd gwag ar unrhyw adeg. Mae galw cynyddol am welyau yn benodol i bobl â salwch meddwl henoed fel dementia. Mae hyn yn debygol o barhau a bydd perthnasoedd effeithiol gyda'r sector annibynnol yn hanfodol er mwyn i ni ateb y galw yn y dyfodol a rhoi cymorth digonol.

Yn lle rhai cartrefi gofal o eiddo'r awdurdod lleol nad oeddent yn bodloni safonau modern codwyd llety gofal ychwanegol, lle gall pobl hŷn ag anghenion gofal gael gofal cartref yn eu fflat pwrpasol eu hunain.

O ganlyniad, mae nifer y derbyniadau newydd i gartrefi gofal yn gostwng tua 3.6% y flwyddyn, gan fod darparu gofal yn y cartref neu lety gofal ychwanegol yn golygu y gall pobl aros gartref yn llawer hirach, os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Fodd bynnag, o wybodaeth meincnodi, gwyddom fod angen i Sir Gaerfyrddin barhau i leihau ei dibyniaeth ar gartrefi gofal, gan y lleolir mwy o bobl mewn cartrefi gofal yma nag mewn rhai awdurdodau lleol eraill. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan yr hyn mae pobl hŷn ei eisiau.

Dywedodd 7 o bob 10 o bobl eu bod eisiau aros yn eu cartref eu hunain cyhyd ag y gallant

3. Sut allem ni ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol?

O gofio'r cynnydd a ddisgwylir yn y galw, ynghyd â'r gostyngiad yng ngwariant y sector cyhoeddus, nid yw parhau â'r modelau gwasanaeth presennol yn opsiwn. Ni fydd cyfyngu ar nifer y bobl sy'n cael cymorth i'r rheiny â'r angen mwyaf yn unig yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, yn nhermau cynorthwyo unigolion i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl, nac ychwaith mewn termau ariannol.

Mae angen ymagwedd 'system gyfan', gydag iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio â phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector preifat i ymyrryd yn gyflym ac yn effeithiol ar adegau o argyfwng er mwyn sicrhau y bydd yr unigolyn mor annibynnol ag yr oedd gynt.

Mae nifer o opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl hŷn mewn ffordd wahanol, a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yn y degawd nesaf a'r tu hwnt.

Bydd yr opsiynau hyn yn:

- ✓ hybu annibyniaeth a lles;
- ✓ lleihau neu ohirio'r galw am wasanaethau hirdymor;
- ✓ lleihau cost diwallu anghenion hirdymor pobl hŷn gymwys, ac ar yr un pryd yn gwella cysondeb yn nhermau ansawdd neu degwch y ddarpariaeth.

Wrth ddatblygu'r opsiynau hyn, rydym wedi edrych ar arferion gorau o awdurdodau lleol a byrddau iechyd eraill. Rydym hefyd wedi astudio perfformiad ein gwasanaethau presennol yn ofalus er mwyn canfod cyfleoedd. Mae rhai o'r opsiynau hyn yn 'syniadau' y bydd angen eu hastudio ymhellach er mwyn penderfynu a ydynt yn ymarferol ac yn ddichonol, ac mae opsiynau eraill yn gynigion mwy pendant a datblygedig.

O gofio maint yr her, mae'n annhebygol iawn y byddai un newid neu ychydig o newidiadau'n ddigon. Bydd angen rhaglen uchelgeisiol a chynhwysfawr o newid i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Nodir yr opsiynau a gaiff eu hystyried mewn 8 adran isod.

a) Datblygu contract newydd gyda dinasyddion a chymunedau

Mae rhai cynghorau'n dechrau datblygu 'contract' newydd gyda dinasyddion a chymunedau sy'n golygu yr anogir unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gofal eu hunain a chynorthwyr teuluoedd a chymunedau i helpu unigolion i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae cysylltiad agos rhwng yr ymagwedd hon a'r cynllun i ofal iechyd sylfaenol fynd ati i helpu pobl i fyw mewn ffordd iachach, ac felly lleihau neu ohirio'r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol ffurfiol ac ymyriadau iechyd. I gyflawni'r 'contract' newydd hwn, mae angen newid sylfaenol yn nisgwyliaidau unigolion, cymunedau a darparwyr gwasanaeth. Nid ateb cyflym ydyw, felly, ond rhaglen hirdymor o newid disgwyliaidau'r cyhoedd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



b) Datblygu gwasanaethau cymunedol, cyffredinol ac atal;

Ar hyn o bryd, dim ond 7% o gyfanswm y gyllideb yr ydym yn ei wario ar wasanaethau 'Haen 1'. Mae'r gyfraith newydd sy'n dod i rym yn 2016 yn galw am bwyslais llawer mwy ar y gwasanaethau hyn. Rydym wedi ymrwymo i symud ein dyraniad cyllideb i ffwrdd o wasanaethau hirdymor tuag at wasanaethau sy'n hybu lles ac annibyniaeth.




- Mae yna gyfle i ddatblygu contractau sengl ar draws y tair sir ar gyfer gwasanaethau penodol, fel eiriolaeth;

- Mae angen i ni weithio mewn ffordd fwy cydweithredol i ddatblygu gwasanaethau atal gyda'r trydydd sector, a chomisiynu mewn ffordd fwy integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Rydym yn datblygu rôl broceriaid y trydydd sector i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu gwynwch a gallu cymunedau;
- Rydym yn bwriadu adeiladu ar gynllun llwyddiannus Credydau Amser SPICE trwy ei ymestyn ledled y sir. Am bob awr mae unigolyn yn ei rhoi i'w gymuned, mae'n ennill un Credyd Amser, y gellir ei wario ar weithgaredd neu help gan rywun arall.

c) Gwneud ymyriadau tymor byr targededig yn fwy effeithiol


Nid oes ar ychydig llai na hanner y bobl hŷn sy'n defnyddio'r gwasanaeth **Ailalluogi** angen y gwasanaeth mwyach ar ôl cwblhau eu rhaglen. Mae adolygiad o'r gwasanaeth Ailalluogi ar y gweill, gan ddisgwyl y dylai hyn wella ac y dylai mwy o bobl hŷn lwyddo i fod yn annibynnol.



- Bydd grant y Gronfa Gofal Canolraddol gan Lywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i ariannu parhad y **Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal (TOCALs)** a'r gwasanaeth Ymateb Cyflym, yn ogystal â chomisiynu 2 wely Ymadfer ychwanegol yn ardal Caerfyrddin.
- Mae potensial i ddatblygu **dull mwy integredig** o ddarparu gwasanaethau Ailalluogi rhwng y tri awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Mae potensial ar gyfer dull rhanbarthol a mwy strategol o ddatblygu **teleofal a theleiechyd**;
- Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau yn Sir Gaerfyrddin, yn yr ysbytai ac yn y gymuned. Mae lle i ddatblygu gwasanaeth **cydgysylltiedig**, amlbwrpas sy'n cysylltu â datblygiadau ym maes gofal sylfaenol yn y gymuned.
- Mae angen i ni allu **mesur effeithiolrwydd** y gwasanaethau hyn yn nhermau cyflawni canlyniadau da i unigolion, fel dod yn gwbl neu'n rhannol annibynnol unwaith eto, gan osgoi neu leihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor.

d) Sicrhau y caiff anghenion eu diwallu'n deg ar draws y Sir

- Lleihau pecynnau gofal sy'n cynnwys dau weithiwr gofal. Mae ymchwil yn dangos bod ansawdd y gofal yn well pan gaiff ei ddarparu un i un. Rydym eisiau sicrhau na ddarperir gofal gan ddau weithiwr ond pan fydd rhesymau da dros wneud hynny. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ni ddarparu gofal i fwy o bobl agored i niwed.
- Gwneud galwadau'n llai aml. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer yr ymweliadau bob dydd gan weithiwr gofal cartref â chartref unigolyn wedi bod yn cynyddu. Rydym eisiau sicrhau bod gofal yn diwallu anghenion unigolyn ond nad yw'n ymwthiol nac yn lleihau annibyniaeth yr unigolyn. Bydd angen i wasanaethau cymunedol eraill roi sylw i ddefnyddwyr sydd mewn perygl o fod yn unig neu'n arwahanedig.
- Gwella cysondeb. Caiff gwaith rheoli perfformiad ar y cyd â phrosesau sicrhau ansawdd ei ddefnyddio i sicrhau ein bod yn lleihau'r amrywioldeb ar draws y Sir ac yn cynyddu hyder bod pobl yn cael eu trin yn deg.



e) Datblygu ein dull o Gomisiynu.

Mae'r gwasanaeth yn dechrau datblygu tuag at wasanaeth mwy personol sy'n helpu'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau mae eisiau eu cyflawni;

- Mae darparwyr yn ymchwilio i'r defnydd posibl o dechnoleg ac mae awydd i arloesi;
- Mae cyfle i ddatblygu manyleb contractau a gwasanaethau ranbarthol gyda rhai darparwyr mawr;
- Mae lle i gomisiynu mewn ffordd fwy integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda er mwyn bod yn fwy hyblyg wrth ymateb i anghenion pobl o ran iechyd a gofal cymdeithasol;
- Mae angen datblygu gwasanaeth mwy arbenigol i bobl sydd â dementia;
- Mae angen datblygu mentrau cydweithredol i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig anodd eu cyrraedd;
- Mae cyfle i bartneru gydag awdurdodau cyfagos wrth wella ein harferion caffael.

Astudiaeth Achos: Prosiect Rhaglan yn Sir Fynwy

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo 14 o bobl sy'n byw gyda dementia mewn cymuned wledig fach. Mae'r prosiect yn symud i ffordd o fodel presennol gofal cartref i un nad yw'n canolbwyntio ar dasgau i gael eu cyflawni ar adegau penodol gan ofalwyr cartref. Rhoddir ymreolaeth i'r tîm i gefnogi dewisiadau'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio amser llawn ar gyflog ac yn gweithio'n hyblyg fel rhan o dîm. Mae'r gweithgareddau a'r gofal a gyflawnir yn cael eu trafod pob dydd gyda'r defnyddiwr gwasanaeth a'i deulu ac yn ymateb i'r ffordd mae'n teimlo. Er mwyn darparu gwasanaeth yn hyblyg, mae'r cynllun gofal yn fframwaith ar gyfer ei ddarparu yn hytrach na rhestr ragnodol o dasgau.


Roedd y canlyniadau i'r unigolion a gynorthwywyd yn well na'r disgwyl, er enghraifft trwy osgoi gofal preswyl parhaol. Roedd yr oriau o ofal a roddwyd 9.5 awr yr wythnos yn llai na'r gwasanaeth gofal cartref blaenorol, gyda chanlyniadau gwell.

f) Dewisiadau ar wahân i'r Cyngor yn darparu gwasanaethau

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu 25% o'r gwasanaeth gofal cartref ac yn rhedeg 8 cartref gofal, yn ogystal â darparu gwasanaethau Ailalluogi, Ymateb Cyflym a Thrwy'r Nos y sir. Hefyd, mae'r gwasanaeth mewnol yn darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Rydym wedi ymrwymo i gadw economi gofal gymysg gan sicrhau, ynghyd â sector annibynnol ffyniannus, ein bod yn cadw gofal cartref a chartrefi gofal o dan berchnogaeth y cyngor ar y lefel bresennol o leiaf. Ar yr un pryd rydym yn derbyn y bydd angen diwygio llawer o elfennau'r gwasanaethau hyn er mwyn diwallu anghenion sy'n newid.

Rydym wedi ystyried 4 prif ddewis:

- Cadw'r gwasanaethau 'mewnol' sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor
- Trefnu'r rhan fwyaf neu bob un o'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu rhedeg trwy contract allanol i'r sector annibynnol
- Datblygu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol
- Datblygu Cwmni Buddiannau Cymunedol



Nid yw cadw gwasanaethau mewnol yn ddewis cost effeithiol, oherwydd yr anallu i ostwng costau er mwyn sicrhau'r arbedion ariannol y mae eu hangen i'n galluogi i warchod gwasanaethau i'r bobl fwyaf agored i niwed. Mae'r tri dewis arall yn ddichonol ond mae iddynt risgiau.


Y dewis a argymhellir yw Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol, sy'n cynnig y potensial gorau o ran gwella ansawdd gwasanaethau, caniatáu costau is i'r cyngor, bodloni atebolrwydd democrataidd a bodloni gofynion rhanddeiliaid. Dyma'r dewis â'r risg leiaf gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i'r Cyngor fasnachu a newid gwasanaethau, ac ar yr un pryd cadw rheolaeth a pherchnogaeth llwyr dros ein cartrefi gofal a gofal cartref. Mae hyn yn sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn cadw darparwr fel dewis olaf i liniaru unrhyw risg y bydd darparwr/ darparwyr yn methu.

Felly argymhellir comisiynu achos busnes llawn i ymchwilio a phenderfynu, ar gyfer Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol dan berchnogaeth lwyr y Cyngor.

g) Ateb y galw am lety i bobl hŷn Cartrefi Gofal Preswyl (ansawdd yr adeiladau) Ardal Llanelli

Mae ansawdd ein cartrefi gofal ein hunain wedi cael ei asesu ac mae'n glir y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn y cartrefi canlynol:

- Llys Y Bryn
- Y Bwthyn
- Y Plas
- Caemaen



Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi clustnodi £7,000,000 yn y rhaglen gyfalaf i fuddsoddi yn Llanelli. Os eir ymlaen â hyn, bydd yn rhoi cyfle i'r Cyngor fuddsoddi mewn darpariaeth newydd yn lle rhywfaint o'r hen ddarpariaeth yn y dref i gynnig mwy o gapasiti ac adeilad sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl â dementia. Bydd y dewisiadau yn hyn o beth yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol yn y misoedd i ddod.

Ardal Aman Gwendraeth

Mae cynlluniau eisoes yn ddatblygedig i gau cartref gofal Tegfan yn Rhydaman yn ddiweddarach eleni, wrth i lety gofal ychwanegol newydd Tŷ Dyffryn agor ym mis Ionawr 2016, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu. Bydd y gwasanaeth gofal cartref mewnol yn darparu gofal cartref i bobl hŷn sydd ag anghenion cymwys.



Ardal Tywi, Teifi, Taf

Bydd llety gofal ychwanegol newydd Cartref Cynnes yn agor cyn bo hir yng Nghaerfyrddin, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Teulu. Bwriedir iddo gymryd lle cartref gofal Tawelan nad oedd yn addas mwyach at safonau heddiw.



Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol

Er bod digon o leoedd mewn cartrefi gofal yn y sir i ateb y galw presennol, mae darparwyr yn cael anhawster wrth ddiwallu anghenion preswylwyr â lefelau cynyddol o ddibyniaeth. Wrth i nifer y bobl hŷn sy'n byw yn y sir gynyddu dros y degawd nesaf, mae'n debygol y bydd galw cynyddol am leoedd mewn cartrefi gofal. Erbyn 2030, os byddwn yn parhau â'r modelau gwasanaeth presennol, gallai fod prinder o ryw 1100 o welyau ac o leiaf 115 o welyau arbenigol i bobl â dementia. Er bod y galw hwn yn debygol o ddenu buddsoddiad gan y sector preifat mewn cyfleusterau cartrefi gofal newydd yn y sir, mae yr un mor bwysig i ni leihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal, a defnyddio gwasanaethau gofal yn y cartref yn fwy. Mae asesiad o'r farchnad yn cael ei lunio yn y rhanbarth er mwyn sicrhau y datblygir digon o gapasiti yn y sector.

Tai Gwarchod

Mae cynlluniau tai gwarchod ar draws y sir wedi cael budd o welliannau trwy fenter Safon Tai Sir Gaerfyrddin ac yn parhau i gynnig tai o ansawdd da i bobl hŷn.


Mae potensial i rai o'r tai hyn gael eu trosi'n raddol yn dai 'gofal ychwanegol', a fyddai'n eu gwneud yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir, yn ogystal â chynyddu dewisiadau i bobl hŷn.

h) Cydweithio ar draws y Rhanbarth


Mae Rhaglen Gydweithredol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn datblygu ymagwedd ranbarthol ar draws ardal Bwrdd Hywel Dda. Mae 6 blaenoriaeth gytunedig sy'n ymwneud â gwasanaethau Pobl Hŷn:

1. Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

I sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth a chyngor, gan wneud y defnydd gorau o atebion technolegol, gan gynnwys technoleg symudol a'r rhyngwyd.




2. Gwasanaethau Atal. I ddatblygu model rhanbarthol o wasanaethau atal i oedolion sy'n hybu annibyniaeth a lles i unigolion, gan atal neu ohirio'r angen am ofal ffurfiol, ar sail model PIVOT (Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro).




3. Cronfa Gofal Canolraddol. I gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu dulliau newydd i ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy sy'n cynnal a chynyddu lles ac annibyniaeth pobl, gan hybu gwell gwaith cydgysylltu gofal ar draws sectorau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a sectorau eraill. I gefnogi mentrau sydd â'r nod o wella gofal i bobl hŷn a'r henoed eiddil, gan osgoi derbyniadau diangen i ysbytai neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl ac atal achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai.




4. Asesu Integredig. I sicrhau y caiff trefniadau effeithiol o ran cynllunio ac adolygu asesiadau, gofal a chymorth integredig eu defnyddio a'u deall gan yr holl weithwyr proffesiynol yn eu gwaith gydag unigolion. I wella trefniadau integredig yn lleol er mwyn helpu i ysgogi arferion cydgysylltiedig gwell ar draws gofal sylfaenol, eilaidd, aciwt a chymunedol er mwyn darparu'r gofal iawn, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn.



5. **Datganiad Sefyllfa'r Farchnad.** I gynorthwyo â'r gwaith o lunio cydweledigaeth i drawsnewid y ffordd yr ydym yn cynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau a mabwysiadu model integredig o iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth. Bydd mwy o integreiddio capasiti comisiynu rhwng awdurdodau lleol yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo â'r dadansoddiad hwn.



6. **Mapio a dadansoddi mentrau cymdeithasol.** I ymchwilio i gyfleoedd i wella'r mentrau cymdeithasol presennol a/neu ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen i'r gwasanaethau hyn ddarparu gwasanaethau o ansawdd da dan gyfarwyddyd y dinesydd, wedi'u hangori yn y gymuned, sy'n rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr.



4. Tri Chynnig i'r Gymuned – ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i hybu annibyniaeth i bobl hŷn

Mae gan bobl hŷn yr hawl i gael urddas a pharch i wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd a'u lles.

Mae llawer o bobl yn aros yn iach ac yn annibynnol ymhell i mewn i'w henoed, ac mae tystiolaeth gynyddol y bydd pobl hŷn yn y dyfodol hyd yn oed yn fwy egniol ac annibynnol na rhai'r presennol. Fodd bynnag, wrth i bobl heneiddio, yn raddol maent yn fwy tebygol o fyw gyda chyd-forbidrwydd cymhleth, anabledd ac eiddilwch.

Dywedodd tri chwarter y bobl a ymatebodd i'n hymgyngoriad mai'r peth pwysicaf iddynt hwy wrth iddynt heneiddio yw aros mor annibynnol ag y gallant.

Ar gyfer pobl hŷn y mae angen cymorth arnynt i aros yn annibynnol neu ddod yn annibynnol unwaith eto, byddwn yn mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol:

Cynnig 1

Help i'ch helpu'ch hun

Mynediad amserol a hawdd gydag ymateb effeithiol i roi gwybodaeth, cyngor neu eiriolaeth.

Gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i'r gymuned gyfan i wella iechyd a lles

Gwasanaethau atal i atal neu ohirio'r angen am wasanaethau ffurfiol.

Cymorth i gymunedau feithrin eu gallu i fod yn gymunedau sy'n ystyriol o bobl hŷn ac o bobl â dementia ac yn gefnogol

Cynnig 2

Help pan fo'i angen arnoch

Ymyriadau targededig byr i'ch helpu i ddod yn annibynnol eto, gyda'r oedi lleiaf posibl, a dim rhagdybiaeth ynghylch cymorth hirdymor.

Bydd cynllun tymor byr yn ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar nodau personol.

Cynnig 3

Cymorth parhaus os oes ei angen arnoch

Cymorth unigoledig iawn, dan eich cyfarwyddyd chi, sy'n cynnig dewis a rheolaeth, i ddiwallu'ch anghenion asesedig a'ch nodau personol tuag at annibyniaeth.

Ystyr hybu annibyniaeth....

Byddwn yn sicrhau ein bod yn parchu hawl pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu hiechyd a'u lles cyhyd ag y bo ganddynt y gallu i wneud hynny, a heb ystyried a ydym yn cytuno â hwy. Ni fyddwn yn gwneud ond yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, gan roi ystyriaeth i'w gofalwyr a'u teulu. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn cael lefel addas o wasanaeth a fydd yn diwallu eu hanghenion asesedig ac yn cynorthwyo â'u nodau tuag at annibyniaeth, gyda chyn lleied o ymyrraeth ag sy'n bosibl.

Rydym yn cydnabod bod y cymorth mae ei angen ar unigolion i'w gael weithiau yn eu teuluoedd a'u cymunedau ac ynddynt eu hunain. Byddwn yn gweithio gyda phob unigolyn a'i rwydwaith i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gyrraedd y nodau personol mae eisiau eu cyflawni. Os yw pobl wedi colli eu rhwydweithiau cymorth byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ailadeiladu'r rhwydweithiau hynny. Mae gwneud hyn yn golygu y bydd rhai pobl yn ôl ar eu traed yn gynt ac yn dod yn annibynnol unwaith eto, ac na fydd arnynt angen cymorth mwyach, ond bydd ar bobl eraill angen cymorth parhaus. Ni fydd penderfyniadau ynghylch gofal hirdymor yn cael eu hystyried hyd nes y bydd triniaeth, adsefydlu, ailalluogi a dewisiadau eraill wedi cael eu disbyddu.

Byddwn yn:

Darparu gwasanaethau i bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg

Mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn gofalu am bobl fel unigolion, gan sicrhau y cânt eu hasesu'n gywir ac y caiff eu hanghenion gofal eu diwallu. Mae'n rhaid i anghenion pobl o ran hunaniaeth ddiwylliannol ac iaith fod yn greiddiol i hyn oherwydd eu bod yn elfen hanfodol mewn gofal o ansawdd da a safonau proffesiynol uchel. Byddwn yn meithrin diwylliant lle mae'r staff yn sensitif i anghenion ieithyddol pobl ac mae defnyddwyr yn cael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal. Rydym wedi rhoi ar waith egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" fel rhan o'r gwaith o fodloni gofynion strategaeth Llywodraeth Cymru "Mwy na Geiriau". Rydym yn cydnabod bod pobl hyn yn grŵp blaenoriaethol yn y strategaeth hon, yn enwedig y rheiny sy'n byw gyda dementia.

Gwerthfawrogi rôl gofalwyr

Bydd anghenion gofal cymdeithasol llawer o bobl sydd ag anghenion o'r fath yn cael eu diwallu'n bennaf gan y gofalwyr sy'n eu cynorthwyo. Byddwn yn sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod am eu hawl i gael asesiad gofalwr. Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan ofalwyr a byddwn yn gweithio gyda hwy i gyrraedd y nodau personol maent eisiau eu cyflawni.

Gwario arian cyhoeddus yn ddoeth

Gyda'r cyfuniad o alw cynyddol am ofal cymdeithasol a'r ffaith bod llai o adnoddau ar gael gan y llywodraeth ganolog, mae'n hanfodol i arian gael ei wario'n deg ac yn ddoeth. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian, a'r safon ansawdd mae ei hangen ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ar gyfer pob gwasanaeth yr ydym yn ei gomisiynu ar ran defnyddwyr gwasanaethau. Ein nod fydd sicrhau canlyniadau teg i unigolion ar draws y sir. Byddwn yn defnyddio adnoddau cymunedol mewn modd arloesol i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o gynorthwyo unigolion i fod yn fwy annibynnol. Byddwn yn osgoi dyblygu a'n nod fydd 'gwnewch ef unwaith, gwnewch e'n iawn'. Byddwn yn defnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth a myfyriol i herio, adolygu a gwerthuso gwasanaethau'n barhaus ac i ysgogi gwelliant. Ein nod yw arbed £2.2 miliwn dros y 3 blynedd nesaf trwy wneud hynny.

Meithrin gweithlu gwybodus a medrus

Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn deall sut i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hybu eu hannibyniaeth ac yn eu cynorthwyo i ymadfer. Byddwn yn cynorthwyo'r staff i weithio mewn timau amlddisgyblaethol, gan barchu barn broffesiynol pobl eraill. Byddwn yn helpu'r staff i ddatblygu eu harferion proffesiynol mewn ffyrdd a fydd yn eu cynorthwyo i rymuso defnyddwyr ein gwasanaethau. Ein nod fydd cynnal parhad o ran ymwneud proffesiynol â chleientiaid. Byddwn yn disgwyl i'r staff gadw at eu safonau proffesiynol ac yn eu cynorthwyo a'u harwain i weithio mewn ffordd ymreolaethol. Byddwn yn ceisio deall a chadw at ddeddfwriaeth. Trwy arweinyddiaeth glir, byddwn yn sicrhau bod ein gweithlu a gweithlu ein darparwyr yn canolbwyntio'n ddi-baid ar hybu annibyniaeth yn hytrach na chreu dibyniaeth.

Gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd

Byddwn yn parhau i ddatblygu dull integredig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Byddwn yn sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn rhannu nodau cyffredin wrth gynorthwyo pobl i aros yn annibynnol eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn golygu y bydd gennym, lle bo modd, gydasesiadau iechyd a gofal cymdeithasol a chynllun sengl a fydd yn helpu pobl i aros yn annibynnol yn y gymuned.

Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr

Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr gofal a chymorth i feithrin athroniaeth gofal sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i unigolion. Byddwn yn sicrhau bod perfformiad y gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu'n canolbwyntio ar ganlyniadau a ddymunir a buddiannau defnyddwyr ein gwasanaethau ac yn darparu gwerth am arian.

Byddai'r Rhaglen Gyflenwi pum mlynedd ganlynol yn arwain at gynllun uchelgeisiol a chynhwysfawr, a fydd i gael ei ddiweddarau bob blwyddyn.

ATODIADAU TECHNEGOL

Atodiad A: Amcanestyniadau Demograffig Sir Gaerfyrddin i 2030

Atodiad B: Tueddiadau o ran Perfformiad Gwasanaethau dros y 5 mlynedd diwethaf (2010 – 2015)

Atodiad C: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad D: Crynodeb o'r Sbardunau Polisi

Mae'r dogfennau hyn ar gael o wneud cais.

Ceir geirfa termau ar ddiwedd y ddogfen hon.

5. Cynllun Cyflenwi Pum Mlynedd 2015-2020

Hybu Annibyniaeth a Lles i Bobl Hŷn

Rhaglen Gyflenwi Pum Mlynedd - Drafft

PROSIECTAU SIR GAERFYRDDIN	2015	2016	2017	2018	2019	2020
PROSIECTAU SYLFAEN						
a. 3 Chynnig i'r Gymuned: Newid Diwylliant a Hyfforddiant i'r Gweithlu						
CYNNIG 1: HELP I'CH HELPU'CH HUN						
b. Datblygu gwasanaethau cymunedol, cyffredinol ac atal						
Datblygu contractau rhanbarthol sengl ar gyfer gwasanaethau penodol						
Datblygu gwasanaethau atal gyda'r 3ydd sector, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda						
Datblygu rôl broceriaid y 3ydd sector ac ymestyn cynllun Credydau Amser ar draws y sir						
Strategaeth Gwytnwch Cymunedol: meithrin gallu cymunedau a'r 3ydd sector						
Strategaeth Maeth Gymunedol: i ddatblygu ymyriadau effeithiol i wella canlyniadau iechyd i bobl hŷn						

PROSIECTAU SIR GAERFYRDDIN	2015	2016	2017	2018	2019	2020
CYNNIG 2: HELP PAN FO'I ANGEN ARNOCH						
c. Gwneud ymyriadau tymor byr targededig yn fwy effeithiol						
Adolygu'r gwasanaeth ailalluogi						
Dull ailalluogi rhanbarthol						
Dull Teleofal a Theleiechyd rhanbarthol						
Datblygu TOCALLS / ART / SCRAMS / Ymateb Cyflym yn wasanaeth amlddisgyblaethol integredig						
Datblygu mesuriadau trylwyr er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau						

CYNNIG 3: CYMORTH PARHAUS OS OES EI ANGEN ARNOCH						
d. Sicrhau y caiff anghenion eu diwallu'n deg ar draws y Sir						
Lleihau galwadau gan ddau weithiwr a nifer y galwadau						
Canlyniadau Cyson						

PROSIECTAU SIR GAERFYRDDIN	2015	2016	2017	2018	2019	2020
e. Datblygu ein dull o gomisiynu						
Comisiynu ar sail canlyniadau ar gyfer darparwyr y Fframwaith Gofal Cartref						
Contractio rhanbarthol gyda darparwyr						
Comisiynu integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda						
Gwella canlyniadau i bobl â dementia						
Mentrau cydweithredol ar gyfer ardaloedd anodd eu cyrraedd						
Treialu dull "Prosiect Rhaglan" – Sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl / dull hyblyg o ddarparu cymorth						

f. Dewisiadau ar wahân i'r Cyngor yn darparu gwasanaethau						
Llunio'r achos busnes dros Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol						

g. Ateb y galw am lety i bobl hŷn						
Cytuno ar gynnig gyda'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu safle yn Llanelli ar gyfer darpariaeth gofal						
Lleihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal						
Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb ar drosi tai gwarchod yn llety gofal ychwanegol						

PROSIECTAU SIR GAERFYRDDIN	2015	2016	2017	2018	2019	2020
PROSIECTAU CYDWEITHREDOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU						
h. Cydweithio ar draws y Rhanbarth						

CYNNIG 1: HELP I'CH HELPU'CH HUN						
Gwybodaeth a chyngor ar wasanaethau oedolion (gan gynnwys yr adolygiad o'r gwasanaeth Llinell Gofal a Mwy)						
Gwasanaethau Atal wedi'u seilio ar fodel PIVOT						

CYNNIG 2: HELP PAN FO'I ANGEN ARNOCH						
Cronfa Gofal Canolraddol – modelau gofal newydd						

CYNNIG 3: CYMORTH PARHAUS OS OES EI ANGEN ARNOCH						
Asesiad Integredig						
Datganiad Sefyllfa'r Farchnad						
Mapio a dadansoddi mentrau cymdeithasol						

GEIRFA TERMAU

Ailalluogi – Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl i ddod yn annibynnol eto gyda gweithgareddau bywyd beunyddiol ar ôl cyfnod o salwch neu anaf.

Gweithgareddau bywyd beunyddiol – Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau fel bwydo, defnyddio'r toiled, gwisgo dillad, tacluso, cynnal ymataliad, ymolchi, cerdded a throsglwyddo (fel symud o wely i gadair).

Gofal Canolraddol – Defnyddir y term hwn i ddisgrifio ystod o wasanaethau triniaeth neu adsefydlu tymor byr sydd wedi'u bwriadu i hybu annibyniaeth, lleihau hyd yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty, neu helpu i osgoi derbyniadau diangen i ysbytai. Gall gofal canolraddol gael ei ddarparu mewn ysbyty neu uned arbennig neu gartref am gyfnod byr (fel arfer dim mwy na chwe wythnos). Y GIG sy'n talu amdano.

Ymadfer – Mae gwelyau ymadfer mewn cartrefi gofal yn enghraifft o Ofal Canolraddol. Mae'r rhain yn cynnig therapïau i bobl i'w helpu i adennill eu gweithrediad a'u hannibyniaeth blaenorol.

Gofal Cartref – Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal personol a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain.

SPICE – Elusen gofrestredig yw hon sydd wedi datblygu cynllun Credydau Amser. Am bob awr mae unigolyn yn ei rhoi i'w gymuned, mae'n ennill un Credyd Amser, y gellir ei wario ar weithgaredd neu help gan berson arall, neu ei roi i eraill.

Darparwr – Sefydliad yw hwn sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddarparu gwasanaethau gofal, fel gofal cartref neu gartrefi preswyl neu gartrefi gofal nyrsio. Mae'r Cyngor yn contractio darparwyr cymeradwy i gyflenwi gwasanaethau ar ei ran.

TOCALs – Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal. Mae'r gwasanaeth newydd hwn â'i bencadlys yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Philip, ac fe'i sefydlwyd gydag arian o grant y Gronfa Gofal Canolraddol gan Lywodraeth Cymru. Nod y gwasanaeth yw osgoi derbyniadau diangen i ysbytai, lleihau hyd yr amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty a hwyluso rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol.

Ymateb Cyflym – Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal personol i bobl yn eu cartref eu hunain er mwyn osgoi derbyniad i'r ysbyty neu i ddarparu cymorth tymor byr ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Tim Ymateb Acíwt – Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal nyrsio aciwt i bobl nad oes angen iddynt fynd i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal dwys am gyfnod byr ac amcangyfrifir ei fod yn osgoi derbyn oddeutu 1200 o gleifion i ysbytai bob blwyddyn.

SCRAMS – Gwasanaeth Amlddisgyblaethol Mynediad Cyflym De Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwasanaeth hwn, sydd â'i bencadlys yn Ysbyty'r Tywysog Philip, yn darparu asesiad brys gan geriatregwyr a gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol cymunedol er mwyn osgoi derbyniadau i ysbytai. Ers cyflwyno'r gwasanaeth, mae SCRAMS wedi gweld 71% o ostyngiad yn nifer yr ymweliadau ag adrannau brys neu dderbyniadau i ysbytai ymysg pobl sy'n cwmpo'n aml, ac mae wedi byrhau hyd arosiadau'r bobl hynny sy'n cael eu derbyn i ysbytai.

Teleofal a theleiechyd – Mae'r rhain yn defnyddio technoleg i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol gartref. Maent yn cynnwys larymau personol a dyfeisiau monitro iechyd. Mae gwasanaethau teleofal a theleiechyd yn arbennig o ddefnyddiol i bobl sydd â chyflyrau hirdymor, gan y gallant roi tawelwch meddwl bod yr unigolyn yn ddiogel yn ei gartref ei hun a bod ei iechyd yn sefydlog.

Gofal sylfaenol – Dyma'r man cyswllt cyntaf a'r prif gydgysylltydd ar gyfer gofal parhaus yn y system gofal iechyd. Mae cleifion yn cael gofal sylfaenol gan eu meddyg teulu neu ymarferydd nyrsio, practis deintyddol, fferyllfeydd cymunedol, optometryddion a darparwr gofal clyw.

Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol – Cwmni dan berchnogaeth lwyr yw hwn, a reolir gan y Cyngor (neu Gynghorau) i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl y mae eu hangen arnynt ac i'r rheiny sydd eisiau prynu gwasanaethau.

Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy - Safon tai i denantiaid y Cyngor sy'n datblygu'n barhaus er mwyn gwella ansawdd tai, a gwasanaethau, i denantiaid a phreswylwyr, gyda'r hyblygrwydd i helpu i ddiwallu anghenion tai yn y dyfodol a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi, ac i gyflenwi cynifer o fuddion iechyd a lles ag sy'n bosibl er mwyn cael yr effaith fwyaf o'r buddsoddiad.

Asesiad Integredig – Dyma'r fframwaith ar gyfer darparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig i bobl hŷn ag anghenion cymhleth yng Nghymru.

Datganiad Sefyllfa'r Farchnad – Mae hwn yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn y presennol ac yn y dyfodol ar gomisiynu gwasanaethau i bobl hŷn.